# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC)

**Y Cynghorydd P W Jenkins** **Ward: Dwyrain Maesteg**

**Plaid: Annibynwyr Llynfi**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Ebrill 2023. Fe'i darperir er gwybodaeth i bob etholwr ac nid at unrhyw ddiben arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

**<u>Rôl a Chyfrifoldebau</u>**

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Dwyrain Maesteg ar 5 Mai 2022. Rwyf wedi cael fy mhenodi'n aelod o nifer o Bwyllgorau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC).

Rwy'n cefnogi fy etholwyr mewn amrywiaeth o faterion a phryderon, mae hyn mewn cydweithrediad â'r aelod ward etholedig arall.

Mae BCBC wedi darparu nifer o gyrsiau hyfforddi a gwybodaeth sy'n fy ngalluogi i gyflawni a gwella fy rôl fel eich Cynghorydd.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am fy rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau drwy ddefnyddio'r ddolen hon:
Cllr Philip Jenkins

**<u>Gweithgarwch yn yr Etholaeth</u>**

Rwy'n ymwneud â llawer o glybiau a sefydliadau amrywiol sy'n cynnwys neuaddau OAP a gweithgaredd ieuenctid.

Cefnogais glybiau/sefydliad yn y cynlluniau Trosglwyddo Asedau Cymunedol (CAT).

Rwy'n aelod o Gyngor Tref Maesteg ac wedi bod ers dros 30 mlynedd bellach. Yn ystod y cyfnod hwn mae'r Cyngor Tref wedi ehangu ei rôl i wella lles ac ymdeimlad da yn ein cwm.

Gyda fy nghymorth i a'm cydweithwyr mae gennym ni'r canlynol:

- Gŵyl haf
- Arddangosfeydd blodau yng nghanol y dref
- Ras hwyl (Ceidwad y Pwll Glo)
- Gorymdaith Nadolig ac arddangosfa golau sy'n tyfu o flwyddyn i flwyddyn

Mae'n anffodus ac yn siomedig nodi, oherwydd y cyfyngiadau ariannol a osodwyd ar ein hawdurdod lleol, ochr yn ochr â llawer o rai eraill, na allaf weithredu/cyflawni'r holl geisiadau na mynd i'r afael â phryderon ac ofnau fy etholwyr i'w boddhad.

| | |
|---|---|
| Er hynny, gallaf eich sicrhau chi i gyd y byddaf i ac eraill yn gwneud popeth o fewn ein gallu i ddiogelu a gwella'r gwasanaethau yr ydym ni i gyd wedi dod yn gyfarwydd â nhw. Byddaf yn gwthio am fuddsoddiad a gwelliant yn ein cwm i sicrhau goroesiad y gymuned werthfawr hon. | |
| **Y Cynghorydd P W Jenkins** | **Dyddiad: 28 Mehefin 23** |